

# Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Adroddiad Monitro  
Blynyddol ar gyfer Gofal  
Cymdeithasol a Iechyd  
2015-16

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**  
**Swyddfeydd y Llywodraeth**  
**Rhydycar**  
**Merthyr Tydful**  
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol:

**Ffôn:** 0300 7900 126  
**Ebost:** [cssiw@cymru.gsi.gov.uk](mailto:cssiw@cymru.gsi.gov.uk)  
**Gwefan:** [www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk)  
**Gwefan y Gydarolygiaeth:** [www.arolygucymru.com](http://www.arolygucymru.com)

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [hiw@cymru.gsi.gov.uk](mailto:hiw@cymru.gsi.gov.uk)  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cyflwyniad

Dyma'r seithfed adroddiad blynyddol ar weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru.

Bwriad Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yw amddiffyn a grymuso pobl â diffyg galluedd meddyliol, ond mewn rhai achosion sydd angen eu hamddifadu o'u rhyddid er mwyn derbyn gofal a thriniaeth briodol mewn ysbytai a chartrefi gofal. Sefydlwyd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2009 ac maent yn amlinellu proses i sicrhau mai dim ond os penderfynir ei fod er budd pennaf pobl â diffyg galluedd i gydsynio i'w gofal y byddant yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Caiff asesiadau annibynnol eu cynnal o'u galluedd, a gellir herio penderfyniadau trwy wneud apêl i'r Llys Gwarchod.

Disgrifir achos o golli rhyddid fel a ganlyn:

- pan fydd unigolyn dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus neu gyfan gwbl, ac
- nid yw'n rhydd i adael, ac
- nid oes ganddo'r galluedd i gydsynio i'r trefniadau hyn.

Gosodwyd cysail gan achos Gorllewin Swydd Gaer bod unrhyw un sy'n bodloni'r prawf cyfreithiol newydd (fel uchod) yn cael ei ystyried i fod wedi colli ei ryddid ac yn destun cyfundrefn gofal amddiffynnol. Dylent elwa ar adolygiadau annibynnol rheolaidd i sicrhau bod eu lleoliad ac unrhyw gyfyngiadau ar eu symudiad yn parhau i fod er eu budd pennaf. Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi rhoi sylw blaenllaw i hawliau dynol ac maent yn sicrhau bod pobl â diffyg galluedd ac sydd wedi colli eu rhyddid yn cael eu cynrychioli a'u clywed. Mae'r trefniadau diogelu'n darparu ar gyfer mynediad at eiriolwyr a'r hawl i herio unrhyw achos o golli rhyddid yn gyfreithiol.

Rhaid i gartrefi gofal ac ysbytai wneud cais i'r corff goruchwyllo perthnasol i gael cymeradwyaeth i amddifadu unigolyn o'i ryddid. Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn amlinellu'r broses y mae'n rhaid ei dilyn. Rhaid i'r corff goruchwyllo sicrhau bod nifer o asesiadau penodol yn cael eu cynnal cyn caniatáu awdurdodiad. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall ysbyty neu gartref gofal amddifadu rhyddid am gyfnod byr trwy awdurdodiad brys, ond rhaid cyflwyno cais safonol i'r corff goruchwyllo perthnasol hefyd.

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am fonitro'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni ar eu rhan gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi data 2015/16 ar y defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac yn crynhoi'r prif ganfyddiadau. Caiff y data ei gasglu gan y cyrff goruchwyllo, sy'n cynnwys 22 awdurdod lleol (cynghorau) a saith bwrdd iechyd, sy'n cynnal yr asesiadau galluedd annibynnol.

Mae'r data mwyaf diweddar yn parhau i ddangos cynnydd mewn ceisiadau. I helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y ceisiadau ac i roi cymorth i fyrdau iechyd a chynghorau gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, darparwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r gwaith o hyfforddi aseswyr budd pennaf. Cynhaliwyd cynhadledd ym mis Hydref 2015 i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddarpariaethau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Yn ogystal, crëwyd cynllun gweithredu gan Lywodraeth Cymru i wella gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a oedd yn cynnwys datblygu canllawiau i gyrff goruchwylio ac awdurdodau rheoli gyda'r nod o ddarparu datrysiad “unwaith i Gymru”. Cyhoeddwyd ffurflenni safonol diwygiedig ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ym mis Hydref 2015 er mwyn sicrhau bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn ac i hyrwyddo cysondeb.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Casglodd yr adroddiad nad oedd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid "yn addas i'r diben" ac argymhellwyd y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr. Casglodd yr adolygiad dilynol gan Gomisiwn y Gyfraith fod awdurdodau lleol a'r GIG yn brwydro i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, a bod pobl a oedd yn byw mewn lleoliadau eraill – fel byw â chymorth – yn cael eu gadael heb eu gwarchod. Ar ôl ymgynghoriad ynglŷn â datrysiadau datblygol, cyhoeddwyd adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith a Bil drafft ar 13 Mawrth 2017. Maent yn argymhell y dylid diddymu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar frys ac amlinellu cynllun yn eu lle, o'r enw Trefniadau Diogelu Rhyddid. Yn ogystal, mae'r Bil drafft yn cynnig diwygiadau ehangach i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a fydd yn diogelu pobl ymhellach cyn iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Mae Adroddiad Monitro eleni'n ailddatgan canfyddiadau Comisiwn y Gyfraith ac yn dangos system sy'n cael trafferth i ymdopi – yn ymarferol, nid yw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn “addas i'r diben” ac o ganlyniad effaith gyfyngedig a gafodd darparu adnoddau ychwanegol a gwella arferion gweithredu o ran gwella'r ffordd mae'r system yn gweithredu.

## Canfyddiadau Allweddol

- **Nifer y ceisiadau**

Cafwyd cynnydd parhaus yn nifer y ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a dderbyniwyd gan gyrrff goruchwyllo ledled Cymru, gan godi dros bymtheg y cant o 10,681 cais yn 2014/15 i 12,298. Cafwyd y cynnydd mwyaf ymysg y byrddau iechyd, sef 41 y cant. Roedd awdurdodau lleol (cynghorau) yn y de-orllewin wedi derbyn nifer sylweddol uwch o geisiadau na gweddill Cymru. Hefyd, roedd amrywiadau mawr yn y cynnydd rhwng y gwahanol gynghorau a gwelwyd lleihad yn y ceisiadau a dderbyniwyd yn rhai ohonynt.

- **Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth**

Roedd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd fesul 100,000 o bobl ym mhob cyngor yn amrywio dros Gymru gyda chyfartaledd o 356 i bob 100,000. Er i'r byrddau iechyd dderbyn nifer sylweddol llai o geisiadau ar y cyfan na chynghorau, gyda chyfartaledd o 142 i bob 100,000, roedd amrywiaeth eang yn nifer y ceisiadau hefyd: derbyniodd Abertawe Bro Morgannwg 340 cais i bob 100,000 o'r boblogaeth a dim ond 35 a dderbyniwyd gan Aneurin Bevan. Ymddengys bod y gwahaniaeth eithafol hwn mewn ceisiadau rhwng byrddau iechyd yn anodd ei esbonio.

- **Awdurdodiadau brys**

Ni fodlonodd 74 y cant o geisiadau'n ymwneud ag awdurdodiadau brys a broseswyd gan gynghorau a byrddau iechyd y cyfnod amser o saith diwrnod ac ni lwyddodd dau gyngor i fodloni'r amserlenni ar gyfer asesiadau ar unrhyw rai o'r ceisiadau brys a dderbyniwyd ganddynt. Roedd gan fyrddau iechyd gyfran uwch o geisiadau brys na chynghorau ac roedd cyfartaledd o ychydig dros 60 y cant o'r holl geisiadau'n rhai brys. Ymddengys bod nifer y ceisiadau brys wedi arwain at oedi am gyfnodau hwy cyn y gellid gwneud penderfyniad ac roedd amrywiadau sylweddol ledled cyrrff goruchwyllo o ran yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau.

- **Awdurdodiadau safonol**

Cafodd ymron i 27 y cant o geisiadau naill ai i gynghorau neu i fyrddau iechyd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol. Y gyfradd gyfartalog o geisiadau safonol i gynghorau a oedd yn bodloni'r targed 21 diwrnod oedd ymron i 20 y cant. Cafodd nifer y ceisiadau ar draws cynghorau a byrddau iechyd effaith negyddol amlwg ar amseroedd prosesu ar gyfer awdurdodiadau safonol a nifer y dyddiau a gymerwyd i wneud penderfyniad. Mae nifer y dyddiau a gymerwyd i wneud penderfyniad yn dangos bod ceisiadau brys yn cael blaenoriaeth dros geisiadau safonol ar y cyfan.

- **Awdurdodiadau**

Cyfartaledd y gyfradd awdurdodi ledled cynghorau oedd 56 y cant a 38 y cant oedd y ffigur ar gyfer byrddau iechyd. Eto, roedd amrywiaeth eang mewn cyfraddau ledled y cyrrff goruchwyllo a rhwng cyfraddau awdurdodi ceisiadau safonol a rhai brys.

- **Am ba hyd mae awdurdodiadau ar waith**

Cynyddodd y cyfnod amser roedd awdurdodiadau ar waith ers y llynedd ac roedd gwahaniaethau yn hyd cyfartalog yr amser y cafodd awdurdodiadau eu caniatáu ar draws y gwahanol ranbarthau. Roedd ceisiadau i gynghorau'n fwy tebygol o gael eu hawdurdodi am hyd at flwyddyn, ar gyfartaledd o ychydig dros 69 y cant, tra oedd ceisiadau i fyrddau iechyd yn llai tebygol o gael eu hawdurdodi am flwyddyn ac roeddent yn parhau am gyfartaledd o 120 diwrnod.

- **Adolygiadau, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a'r Llys Gwarchod**

Roedd nifer yr awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid lle y cynhaliwyd adolygiad yn ystod y cyfnod yn dal yn gymharol isel – dim ond un y cant o awdurdodiadau. Ar y cyfan, roedd mwyafrif helaeth yr awdurdodiadau wedi darfod cyn i adolygiad gael ei gynnal. O'r 12,298 o geisiadau yn 2015/16, roedd Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol wedi ei benodi ar gyfer 336 ohonynt a chafodd 39 ohonynt eu hatgyfeirio at y Llys Gwarchod.

## Dadansoddiad

Mae adroddiad eleni wedi ystyried a yw'r adnoddau ychwanegol a'r canllawiau diwygiedig wedi helpu i symleiddio'r broses i gyrff goruchwyllo a gwella effeithiolrwydd. Er bod budd diamheuol i waith Llywodraeth Cymru wrth sefydlu proses unigol a chasgliad o ddogfennau cyson ar gyfer ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, nid yw'n bosibl pennu a yw'r gwaith hwn wedi helpu i wella arfer. Mae nifer parhaus y ceisiadau wedi golygu ar y cyfan bod darparu adnoddau ychwanegol a phrosesau symlach wedi cael effaith gyfyngedig ar wella gweithrediad y system.

- **Effeithiolrwydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

Mae cyfran yr awdurdodiadau sy'n bodloni targedau amser penderfynu'n dangos bod cynghorau a byrddau iechyd yn cael anhawster ar y cyfan i ymdopi â nifer y ceisiadau er gwaethaf tystiolaeth bod ganddynt fwy o gapasiti yn y rhan fwyaf o achosion. Dengys y data bod ceisiadau brys yn cael blaenoriaeth ond mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith ddilynol ar yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau safonol. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n ymdrin â nifer sylweddol o achosion sydd wedi cronni. Mae'r oedi wrth brosesu ceisiadau a chynnal asesiadau, ochr yn ochr â'r lefelau isel o adolygiadau, yn cynyddu'r perygl y gallai pobl golli eu rhyddid heb amddiffyniad y trefniadau diogelu.

- **Dilysrwydd awdurdodiadau hwy a budd pennaf pobl**

Er bod Cod Ymarfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cefnogi'r defnydd o awdurdodiadau byr, dengys y data bod y cyfnod roedd yr awdurdodiadau ar waith wedi cynyddu ymhellach. Mae ceisiadau i gynghorau'n llawer mwy tebygol o gael eu hawdurdodi am hyd at flwyddyn ac nid yw'r rhwyd ddiogelwch a ddarperir trwy gwblhau adolygiadau'n effeithiol gan mai dim ond un y cant o'r adolygiadau a gafodd eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

- **Capasiti i gefnogi'r galw am geisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

Mae nifer uchel parhaus y ceisiadau am awdurdodiadau, ynghyd â'r cynnydd pellach yn 2015/16, yn parhau i roi pwysau sylweddol ar adnoddau cynghorau. Dengys y data yn y rhan fwyaf o'r cynghorau, os nad pob un ohonynt, bod pwysau rheoli prosesau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (gan gynnwys cynnal asesiadau ac adolygiadau) yn mynd y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn er gwaethaf tystiolaeth bod capasiti wedi cynyddu a bod cynghorau'n ceisio penodi staff neilltuedig. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi caniatáu cynnydd mewn aseswyr budd pennaf. Mewn rhai cynghorau, cyflawnwyd hyn trwy hyfforddi gweithwyr cymdeithasol i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Mae argaeledd a chost penodi aseswyr budd pennaf yn dal i fod yn heriol.

- **Hyfforddi staff mewn ysbytai i fynd i'r afael â gorddibyniaeth bosibl ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

Yn ystod proses arolygu AGIC, mae gwybodaeth staff am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi bod yn amrywiol iawn. Canfu AGIC mai ychydig iawn o wybodaeth

sydd gan rai staff am y broses tra bod gan eraill wybodaeth dda. Yn amlwg, mae'r ail grŵp o staff yn fwy abl i ymchwilio i opsiynau ar wahân i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac, i'r gwrthwyneb, lle ceir llai o ddealltwriaeth efallai bod opsiynau eraill yn llai tebygol o gael eu hystyried. Efallai bod problem hefyd o fewn rhai wardiau gofal dementia lle ymddengys bod dull cyffredinol yn cael ei ddefnyddio i wneud yr holl gleifion sydd ar y wardiau'n destun y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae hyfforddi staff yn y maes hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r gallu i benderfynu pryd mae angen defnyddio'r Trefniadau Diogelu rhag Colli ar gyfer cleifion. Ni wnaethom ganfod fod hyfforddiant o'r fath yn cael ei ddefnyddio i wella sgiliau yn y maes hwn.




## Nifer y ceisiadau

Cafwyd cynnydd sylweddol mewn ceisiadau ers 2014/15. Yn 2013/14 roedd 631 o geisiadau, cynyddodd hyn i 10,681 yn 2014/15, ac yn 2015/16 roedd 12,298 o geisiadau.<sup>1</sup> O'r 12,298 o geisiadau a dderbyniwyd, roedd 8,792 ohonynt i gynghorau. Mae hyn yn gynydd o 7.3 y cant ers 2014/15.

Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mawr yn y gyfradd o newid rhwng y gwahanol gynghorau. Er enghraifft, roedd gan Wrecsam ymron i ddeg gwaith nifer y ceisiadau yn 2015/16 ag a dderbyniwyd yn 2014/15; fodd bynnag, dim ond tair gwaith cymaint oedd gan Sir Fynwy. Yn ystod yr un cyfnod, cafwyd lleihad o oddeutu 25 y cant yn y ceisiadau a dderbyniwyd ym Merthyr Tudful a Sir Gaerfyrddin - gweler Ffigur 1a.

**Ffigur 1a. Nifer y ceisiadau a wnaed i awdurdodau lleol (2013 i 2016)**




Roedd nifer sylweddol uwch o geisiadau mewn cynghorau yn y de-orllewin (Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe) nac yng ngweddill Cymru, gyda chyfartaledd o 551 o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 400. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer y cartrefi gofal yn y rhanbarth hwn yn fras yr un faint ac yn y rhanbarthau eraill (256 yn y de-orllewin, 255 yn y gogledd a 250 yn y de-ddwyrain). Mewn cymhariaeth, derbyniodd byrddau iechyd gyfartaledd o 501 o geisiadau.

Derbyniodd byrddau iechyd 3,506 o geisiadau ac maent yn dangos patrwm tebyg o ran cynnydd. Mae'r gyfradd wedi bod yn uwch ar gyfer byrddau iechyd nac ar gyfer cynghorau gyda chynnydd o 41 y cant (derbyniwyd 2,486 o geisiadau yn 2014/15). Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson oherwydd cafodd Betsi Cadwaladr a Chaerdydd

<sup>1</sup> Cafodd 7,679 o geisiadau eu prosesu yn ystod y flwyddyn ac roedd y gweddill naill ai'n dal ar y gweill ar 31 Mawrth 2016 neu roedd data ar goll.

a'r Fro ymron i ddwywaith y nifer o geisiadau, tra cafwyd gostyngiad bach yn Hywel Dda – gweler Ffigur 1b.


**Ffigur 1b. Nifer y ceisiadau a wnaed i fyrddau ieuchyd (2013 i 2016)**



Er mwyn gwneud cymharu'n hawdd, mae Ffigur 2a yn dangos nifer y ceisiadau a dderbyniwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth. I gynghorau, 356 i bob 100,000 oedd y nifer cyfartalog a dderbyniwyd ond roedd amrywiadau sylweddol. Ceredigion oedd â'r nifer uchaf o geisiadau o'i gymharu â'r boblogaeth, gyda 677 i bob 100,000 tra oedd 125 cais i bob 100,000 yng Nghonwy.


Roedd gan y cynghorau yn y de-orllewin gyfradd sylweddol uwch o geisiadau, gyda chyfartaledd o 472 o geisiadau i bob 100,000 o bobl, tra oedd gan y rhai yn y de-ddwyrain gyfartaledd o 317 ac roedd cyfartaledd o 278 yn y gogledd.

**Ffigur 2a. Nifer y ceisiadau a wnaed i awdurdodau lleol fesul 100,000 o'r boblogaeth (2015/16)**



At ddibenion y dadansoddiad hwn, cyfrifwyd y boblogaeth ar gyfer byrddau iechyd trwy gydgasglu poblogaethau ardaloedd y cynghorau a gynhwysir ynddynt. Y cyfartaledd ar gyfer byrddau iechyd yw 142 cais i bob 1,000 o'r boblogaeth a dengys Ffigur 2b bod amrywiadau sylweddol ymysg y byrddau iechyd hefyd, gydag Abertawe Bro Morgannwg yn derbyn 340 cais i bob 100,000 ac Aneurin Bevan yn derbyn dim ond 35.

**Ffigur 2b. Nifer y ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd fesul 100,000 o'r boblogaeth (2015/16)**



### Math o awdurdodiad ac amseroldeb

Gall awdurdodiad o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fod ar ddwy ffurf: awdurdodiad brys neu awdurdodiad safonol. Mewn achosion lle na ellir osgoi amddifadu rhyddid cyn y gellir cael awdurdodiad safonol, gall awdurdodau rheoli awdurdodi colli rhyddid am gyfnod byr – saith diwrnod (gellir ymestyn hwn gan saith diwrnod pellach). Rhaid i gais am awdurdodiad safonol i'r corff goruchwyllo gyd-fynd â'r awdurdodiad brys hwn, y mae'n rhaid cwblhau'r asesiadau ar ei gyfer o fewn pum niwrnod.


Ar gyfer achosion eraill, rhaid cyflwyno cais am awdurdodiad safonol i'r corff goruchwyllo. Dylai'r corff goruchwyllo gwblhau asesiadau sy'n ymwneud ag awdurdodiad safonol o fewn 21 diwrnod.

### Cymhareb ceisiadau brys i geisiadau safonol

Mae Ffigur 3a yn dangos y gymhareb ceisiadau brys i geisiadau safonol ar gyfer pob cyngor. O'r holl geisiadau i gynghorau yn 2015/16, roedd 7,181 yn ymwneud ag awdurdodiadau safonol ac 1,496 yn ymwneud ag awdurdodiadau brys. Ar gyfartaledd ar draws cynghorau, roedd ymron i 20 y cant o'r holl geisiadau'n ymwneud ag awdurdodiadau brys.


Mewn rhai cynghorau fel Caerffili, Wrecsam a Thorfaen, mae dros 50 y cant o'u ceisiadau'n ymwneud ag awdurdodiadau brys. I'r gwrthwyneb, ni dderbyniodd Sir Ddinbych unrhyw geisiadau'n ymwneud ag awdurdodiadau brys a dim ond tri y cant a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd.

**Ffigur 3a. Y math o geisiadau i awdurdodau lleol yn ôl cyfran (2015/16)**



Mae gan fyrddau iechyd gyfran uwch o geisiadau'n ymwneud ag awdurdodiadau brys na chynghorau, gydag 1,340 o geisiadau am awdurdodiad safonol a 2,132 o geisiadau am awdurdodiad brys. Golyga hyn fod cyfartaledd o 63 y cant o'r holl geisiadau i fyrddau iechyd yn ymwneud ag awdurdodiadau brys – gweler Ffigur 3b. Fodd bynnag, roedd y gyfradd hon yn amrywio'n helaeth ledled byrddau iechyd, gyda 95 y cant yn Hywel Dda, 89 y cant ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys a Betsi Cadwaladr, a 9 y cant yng Nghwm Taf.

**Ffigur 3b. Y math o geisiadau i fyrddau iechyd yn ôl cyfran (2015/6)**



## Amser rhwng gwneud cais a derbyn penderfyniad

Mae amserlenni gwahanol ar gyfer cwblhau asesiadau ar gyfer awdurdodiadau safonol ac awdurdodiadau brys:

- Roedd 73 y cant o'r ceisiadau safonol a gafodd eu prosesu wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod o 21 diwrnod y mae'n rhaid i'r cyrff goruchwyllo gynnal eu hasesiadau ynddo.
- Roedd 74 y cant o'r ceisiadau ar gyfer awdurdodiadau brys wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn amser o saith diwrnod ar gyfer colli rhyddid – ac roedd 53 y cant wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod hwyaf o 14 diwrnod.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos dirywiad ers y llynedd, lle roedd 56 y cant o geisiadau safonol wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn amser o 21 diwrnod.

Mae Tabl 1 yn dangos dadansoddiad manwl o nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, y ganran a gafodd eu hawdurdodi, y ganran o fewn y terfyn amser o 21 diwrnod a saith diwrnod, a nifer cyfartalog y diwrnodiau a gymerwyd i wneud penderfyniad.

Dim ond 28 y cant yw canran gyfartalog y ceisiadau a wnaed mewn perthynas ag awdurdodiadau brys lle y gwnaed penderfyniad o fewn saith diwrnod, sy'n cynyddu i 47 y cant o fewn 14 diwrnod (y cyfnod hwyaf y dylai awdurdodiad brys fod mewn grym). Ar draws yr holl gynghorau, roedd 220 cais am estyniad i awdurdodiadau brys, sy'n cynrychioli 15 y cant o'r holl geisiadau brys.

Mae Tabl 1 hefyd yn dangos sawl diwrnod y cymerodd pob cais ar gyfartaledd i dderbyn penderfyniad. Dengys y canlyniadau bod oedi sylweddol ac amrywiaeth eang o ran yr amser a gymerwyd gan gynghorau. Mae'r darlun yn debyg, ond nid mor amlwg, ar gyfer byrddau iechyd, lle y derbyniwyd penderfyniad ar 38 y cant o geisiadau safonol o fewn 21 diwrnod.

**Tabl 1. Nifer, cyfradd awdurdodi, canran yn bodloni targedau amser penderfynu, a nifer cyfartalog y dyddiau cyn penderfyniad ar gyfer pob cais (2015/16)**

|                                     | Safonol             |              |                                   |   | Brys                |              |                                   |   |
|-------------------------------------|---------------------|--------------|-----------------------------------|---|---------------------|--------------|-----------------------------------|---|
|                                     | Nifer a dderbyniwyd | Awdurdod wyd | Bodloni targedau amser penderfynu | Nifer cyfartalog y dyddiau cyn penderfyniad | Nifer a dderbyniwyd | Awdurdod wyd | Bodloni targedau amser penderfynu | Nifer cyfartalog y dyddiau cyn penderfyniad |
| <b>Blaenau Gwent</b>                | 153                 | 40%          | 5%                                | 126   | 50                  | 53%          | 0%                                | 71  |
| <b>Pen-y-bont ar Ogwr</b>           | 419                 | 73%          | 14%                               | 88  | 24                  | 77%          | 55%                               | 13  |
| <b>Caerffili</b>                    | 123                 | 38%          | 23%                               | 84  | 138                 | 41%          | 2%                                | 85  |
| <b>Caerdydd</b>                     | 808                 | 66%          | 21%                               | 76  | 42                  | 69%          | 38%                               | 19  |
| <b>Sir Gaerfyrddin</b>              | 465                 | 7%           | 41%                               | 61  | 127                 | 23%          | 36%                               | 32  |
| <b>Ceredigion</b>                   | 311                 | 20%          | 45%                               | 62  | 44                  | 48%          | 24%                               | 36  |
| <b>Conwy</b>                        | 97                  | 99%          | 24%                               | 77  | 21                  | 81%          | 29%                               | 13  |
| <b>Sir Ddinbych</b>                 | 313                 | 23%          | 9%                                | 72  | 0                   | 0%           | Dim                               | Dim   |
| <b>Sir y Fflint</b>                 | 230                 | 81%          | 16%                               | 74  | 56                  | 82%          | 23%                               | 39  |
| <b>Gwynedd</b>                      | 367                 | 57%          | 30%                               | 102   | 12                  | 73%          | 18%                               | 71  |
| <b>Ynys Môn</b>                     | 78                  | 71%          | 0%                                | 161   | 15                  | 100%         | 0%                                | 263   |
| <b>Merthyr Tudful</b>               | 145                 | 53%          | 22%                               | 77  | 9                   | 33%          | 33%                               | 11  |
| <b>Sir Fynwy</b>                    | 136                 | 44%          | 12%                               | 121   | 63                  | 50%          | 5%                                | 111   |
| <b>Castell-nedd Port Talbot</b>     | 575                 | 82%          | 6%                                | 99  | 83                  | 57%          | 50%                               | 10  |
| <b>Casnewydd</b>                    | 191                 | 55%          | 35%                               | 80  | 132                 | 48%          | 2%                                | 116   |
| <b>Sir Benfro</b>                   | 307                 | 68%          | 41%                               | 48  | 105                 | 64%          | 49%                               | 20  |
| <b>Powys</b>                        | 311                 | 35%          | 7%                                | 97  | 43                  | 68%          | 5%                                | 75  |
| <b>Rhondda Cynon Taf</b>            | 664                 | 44%          | 20%                               | 84  | 72                  | 69%          | 7%                                | 56  |
| <b>Abertawe</b>                     | 840                 | 66%          | 14%                               | 81  | 98                  | 77%          | 48%                               | 10  |
| <b>Torfaen</b>                      | 111                 | 48%          | 39%                               | 115   | 125                 | 42%          | 4%                                | 105   |
| <b>Bro Morgannwg</b>                | 372                 | 64%          | 20%                               | 87  | 45                  | 63%          | 60%                               | 9   |
| <b>Wrecsam</b>                      | 165                 | 26%          | 17%                               | 97  | 192                 | 42%          | 17%                               | 51  |
| <b>Cyfartaledd yr ALI</b>           | 326                 | 55%          | 20%                               | 84  | 68                  | 57%          | 28%                               | 46  |
| <b>Abertawe Bro Morgannwg</b>       | 299                 | 50%          | 39%                               | 36  | 274                 | 49%          | 32%                               | 23  |
| <b>Aneurin Bevan</b>                | 79                  | 41%          | 32%                               | 52  | 151                 | 30%          | 17%                               | 40  |
| <b>Betsi Cadwaladr</b>              | 87                  | 53%          | 24%                               | 40  | 701                 | 28%          | 1%                                | 29  |
| <b>Caerdydd a'r Fro</b>             | 346                 | 56%          | 42%                               | 37  | 309                 | 62%          | 65%                               | 7   |
| <b>Cwm Taf</b>                      | 486                 | 14%          | 37%                               | 45  | 51                  | 21%          | 35%                               | 20  |
| <b>Hywel Dda</b>                    | 27                  | 19%          | 74%                               | 15  | 509                 | 15%          | 35%                               | 18  |
| <b>Addysgu Powys</b>                | 16                  | 7%           | 20%                               | 44  | 137                 | 11%          | 7%                                | 56  |
| <b>Cyfartaledd y byrddau iechyd</b> | 191                 | 37%          | 38%                               | 40  | 305                 | 39%          | 28%                               | 21  |

Mae'r oedi o ran gwneud penderfyniad yn peri pryder difrifol am effeithiolrwydd y trefniadau diogelu a'r perygl o achosion o amddifadu rhyddid yn ddiangen a heb awdurdod mewn ysbytai a chartrefi gofal.

## Ceisiadau a awdurdodwyd

Wrth benderfynu a ddylid awdurdodi cais, rhaid cynnal chwe asesiad (gweler y Rhestr Termau). Dyma'r asesiadau:

- Oedran
- Budd pennaf
- Galluedd meddyliol
- Cymhwysedd
- Iechyd meddwl
- Dim achosion o wrthod


Yn ogystal â methu'r asesiadau hyn, efallai na chaiff ceisiadau eu hawdurdodi am resymau eraill fel cael eu tynnu yn ôl, eu dileu, neu eu rhyddhau o'r gwasanaeth.

O'r 7,679 o geisiadau a broseswyd yn 2015/16, cyfanswm yr awdurdodiadau oedd 3,394. Golyga hyn fod llai na 50 y cant o'r holl geisiadau wedi cael eu hawdurdodi yn 2015/16.

Proseswyd 4,220 o geisiadau gan gynghorau, yr oedd 3,332 ohonynt yn safonol ac 888 ohonynt yn ymwneud ag awdurdodiadau brys. Cafwyd cyfanswm o 2,324 o awdurdodiadau gan gynghorau yn 2015/16, yr oedd 504 ohonynt yn ymwneud ag awdurdodiadau brys. Cyfradd gyfartalog yr awdurdodiadau ledled yr holl gynghorau oedd 55 y cant.


Mae Ffigur 4a yn dangos cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob cyngor. Roedd ceisiadau'n ymwneud ag awdurdodiadau brys yn fwy tebygol o gael eu hawdurdodi na rhai safonol ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa'n amrywio ac roedd cyfradd yr awdurdodau brys yn llawer uwch na rhai safonol mewn rhai cynghorau fel Powys, Ceredigion ac Ynys Môn, ac yn is mewn eraill, fel Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful.

**Ffigur 4a. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol (2015/16)**



O'r 3,506 cais a dderbyniwyd gan fyrddau iechyd, cafodd 3,165 eu prosesu yn 2015/16, yr oedd 1,171 ohonynt yn rhai safonol ac 1,994 ohonynt yn ymwneud ag awdurdodiadau brys. Awdurdodwyd 1,070 o geisiadau gan fyrddau iechyd yn 2015/16, yr oedd 438 ohonynt yn rhai safonol a 632 ohonynt yn ymwneud ag awdurdodiadau brys. Mae'r gyfradd awdurdodi gyfartalog ar gyfer byrddau iechyd yn is na chynghorau, gyda 34 y cant o'r holl geisiadau'n cael eu hawdurdodi. Mae gan rai byrddau iechyd gyfradd awdurdodi uwch, fel Caerdydd a'r Fro ar 59 y cant. Fodd bynnag, dim ond deg y cant o'r ceisiadau a dderbyniwyd a gafodd eu hawdurdodi gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys – gweler Ffigur 4b.

**Ffigur 4b. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd (2015/16)**



Dangosir nifer y ceisiadau a gafodd eu gwrthod ar bob un o'r seiliau hyn yn Nhabl 2. Gellir gweld bod mwyafrif y ceisiadau wedi cael eu tynnu yn ôl, eu dileu, neu fod yr unigolyn dan sylw wedi marw cyn i benderfyniad gael ei wneud.

**Tabl 2. Nifer y ceisiadau nas awdurdodwyd**

|                  | Oedran    | Budd pennaf | Galluedd meddyliol | Cymhwyse dd | Iechyd meddwl | Dim achosion o wrthod | Tynnu yn ôl, dileu neu farwolaeth | Arall            |
|------------------|-----------|-------------|--------------------|-------------|---------------|-----------------------|-----------------------------------|------------------|
| <b>ALI</b>       | 0         | 19          | 209                | 44          | Llai na 5     | 0                     | 1380                              | 42               |
| <b>BI</b>        | Llai na 5 | 14          | 131                | 43          | 64            | 0                     | 1615                              | 194              |
| <b>Cyfan swm</b> | Llai na 5 | 33          | 340                | 87          | 68            | 0                     | 2995                              | 236 <sup>2</sup> |


Fodd bynnag, os mai dim ond y rhai a gafodd eu gwrthod sy'n gynwysedig, mae'r rhesymau'n gwahaniaethu rhwng cynghorau a byrddau iechyd. Mae Ffigur 5 yn dangos bod cynghorau'n fwy tebygol na byrddau iechyd o wrthod cais ar sail galluedd

<sup>2</sup> Y lleill: 164 wedi eu rhyddhau, 14 wedi eu trosglwyddo, 11 wedi cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl



meddyliol. Fodd bynnag, mae byrddau iechyd yn fwy tebygol o wrthod ar sail iechyd meddwl.

**Ffigur 5.Y rhesymau dros wrthod ceisiadau mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd (2015/16)**




Roedd 2,995 o geisiadau a gafodd eu tynnu yn ôl neu lle y bu farw'r unigolyn perthnasol cyn i benderfyniad gael ei wneud. Mae hyn yn cyfrif am 24 y cant o'r holl geisiadau. Cyfran gyfartalog y ceisiadau a gafodd eu tynnu yn ôl neu a gafodd eu dileu oedd 16 y cant i gynghorau a 46 y cant i fyrddau iechyd.

Er mai ychydig iawn a gafodd eu tynnu yn ôl mewn rhai cynghorau, cafodd dros chwarter yr holl geisiadau yn Sir Gaerfyrddin, Caerffili a Cheredigion eu tynnu yn ôl. O'i gymharu â hyn, cafodd llawer mwy o geisiadau eu tynnu yn ôl gan fyrddau iechyd, ac eithrio Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro, lle y tynnwyd llai na hanner y ceisiadau yn ôl.

## Am ba hyd roedd awdurdodiadau'n ddilys


Unwaith mae cais wedi cael ei wneud, bydd y corff goruchwylio'n asesu'r wybodaeth a ddarperir i benderfynu am ba hyd y caiff y colli rhyddid ei awdurdodi. Cafodd y rhan fwyaf o geisiadau i gynghorau eu hawdurdodi am hyd at flwyddyn – 69 y cant ar gyfartaledd. Roedd hyn yn amrywio ar draws cynghorau ac roedd lefelau llawer uwch mewn rhai, megis Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Ddinbych ar 94 y cant, ac Ynys Môn ar 91 y cant. Mewn cyferbyniad, roedd lefelau llawer is mewn cynghorau eraill: Bro Morgannwg ar 35 y cant a Chaerdydd ar 37 y cant. Gweler Ffigur 6a.

**Ffigur 6a. Am ba hyd mae ceisiadau'n ddilys fesul awdurdod lleol (2015/16)**



Roedd ceisiadau i fyrddau iechyd yn llai tebygol o gael eu hawdurdodi am flwyddyn, gyda chyfartaledd o 14 y cant. Roedd 64 y cant am dri mis neu lai. Eto, roedd y gyfradd yn amrywio ar draws byrddau iechyd: Abertawe Bro Morgannwg ar 38 y cant am flwyddyn a 32 y cant am dri mis neu lai, tra oedd Hywel Dda ar un y cant am flwyddyn a 99 y cant am dri mis neu lai. Gweler Ffigur 6b.

**Ffigur 6b. Am ba hyd mae ceisiadau'n ddilys fesul bwrdd iechyd (2015/16)**




## Proffiliau demograffig


Roedd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfansoddiad demograffig y ceisiadau a wnaed i gynghorau a byrddau iechyd. Mewn cynghorau, roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau mewn perthynas â benywod hŷn, gyda 66 y cant o'r ceisiadau i fenywod a 52 y cant i rywun 85 oed neu'n hŷn – gweler Ffigur 7. Fodd bynnag, roedd y rhaniad rhwng y rhywiau'n gyfartal fwy neu lai mewn byrddau iechyd (51 y cant yn fenywaidd) a phroffil ychydig yn iau, gyda 35 y cant o geisiadau'n cael eu gwneud ar gyfer rhywun 85 oed neu'n hŷn. Yn y ddau grŵp, roedd ymron i bob cais ar gyfer rhywun a oedd yn wyn ac yn Brydeinig (96 y cant).

**Ffigur 7. Proffil oedran unigolion sydd wedi bod yn destun cais o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (2015/16)**

### Awdurdodau Lleol



### Byrddau Iechyd



Roedd ceisiadau ar gyfer oedolion hŷn yn llawer llai tebygol o gael eu hawdurdodi. Y gyfradd awdurdodi gyfartalog ledled cynghorau a byrddau iechyd oedd 48 y cant, gyda chyfradd o 63 y cant i'r rhai 18 i 54 oed a 44 y cant i'r rhai 85 oed neu'n hŷn. Fel y gwelir yn Ffigur 8, roedd y gyfradd awdurdodi ceisiadau i fyrddau iechyd yn gyson is na'r rhai i gynghorau.



Gostyngodd nifer yr achosion lle y penodwyd Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol o dros 500 yn 2014/15 i 336 yn 2015/16. O'r rhain, roedd 159 yn swyddogaeth 39A (81 y cant gan gynghorau), 37 yn swyddogaeth 39C (86 y cant gan gynghorau), a 140 yn swyddogaeth 39D (42 y cant gan gynghorau).

Gellir herio unrhyw achos o golli rhyddid, fel arfer gan gynrychiolydd yr unigolyn, yn y Llys Gwarchod. Cafodd cyfanswm o 39 atgyfeiriad i'r Llys Gwarchod yn 2015/16 (25 cais i gynghorau a 14 i fyrdau iechyd). Er gwaethaf nifer cymharol fach o geisiadau ganddynt o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, cafodd Wrecsam a Sir y Fflint pum atgyfeiriad yr un, a oedd yn cynrychioli 20 y cant o atgyfeiriadau cynghorau. Yn yr un modd, roedd naw o'r 14 atgyfeiriad mewn byrddau iechyd o geisiadau i Aneurin Bevan. Cafodd y rhan fwyaf o gynghorau a byrddau iechyd un neu lai o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn.

Er y gall unrhyw unigolyn herio achos o golli rhyddid, ymddengys bod penodi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn gwneud gwahaniaeth gan fod ymron i hanner yr atgyfeiriadau wedi digwydd pan oedd Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol wedi cael ei benodi. O'r 39 atgyfeiriad, digwyddodd deg pan benodwyd eiriolwr swyddogaeth 39A, dau pan benodwyd eiriolwr swyddogaeth 39C, a phump pan benodwyd eiriolwr swyddogaeth 39D.

## Ansawdd data

Defnyddir y data yn yr adroddiad hwn i fonitro'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid trwy Gymru gyfan. Caiff ei gyflwyno i AGGCC gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd ond ni chaiff ei ddilysu gan AGGCC nac AGIC.

Caiff yr adroddiad monitro ei gyhoeddi yn chwarter olaf pob blwyddyn ariannol. Nid oes unrhyw dablau neu ddata ychwanegol yn cyd-fynd ag ef.

Newidiodd yr hyn a oedd yn cael ei ystyried i fod yn amddifadiad o ryddid yn 2014, ac felly nid yw data a gasglwyd ym mlwyddyn ariannol 2013/14 yn uniongyrchol gymaradwy â'r data a gasglwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16. Ceir mwy o wybodaeth am y newidiadau a gyflwynwyd yma:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/485122/DH\\_Consolidated\\_Guidance.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/485122/DH_Consolidated_Guidance.pdf)

Fe all fod nifer fechan o achosion lle caiff ceisiadau eu labelu'n amhriodol naill ai fel safonol neu frys ac fe all fod lwfans gwallau yn y canlyniadau. Nid ystyrir bod hwn yn arwyddocaol.

## **RHESTR TERMAU:Termau allweddol a ddefnyddir yn Adroddiad Monitro'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

|  |   |
|--|---|
| <b>Eiriolaeth</b>  | Help a chymorth annibynnol i ddeall materion a chyflwyno barn, teimladau a syniadau personol unigolyn.  |
| <b>Asesiad at ddiben y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid</b> | Rhaid i'r chwe asesiad fod yn gadarnhaol er mwyn cael awdurdodiad.  |
| <b>• Oedran</b>  | Asesu a yw'r unigolyn perthnasol wedi cyrraedd 18 oed.  |
| <b>• Asesiad budd pennaf</b>                                     | Asesu a yw colli ei ryddid er budd pennaf yr unigolyn perthnasol, a yw'n angenrheidiol er mwyn atal yr unigolyn rhag niwed, ac a yw'n ymateb sy'n gymesur i debygolrwydd a difrifoldeb y niwed hwnnw. Rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei wneud gan Asesydd Budd Pennaf.   |
| <b>• Asesiad cymhwysedd</b>                                      | Asesu a yw unigolyn yn anghymwys ar gyfer awdurdodiad colli rhyddid safonol gan y byddai'r awdurdodiad yn gwrthdaro â gofynion sydd wedi eu pennu, neu y gellid eu pennu, ar yr unigolyn dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.   |
| <b>• Asesiad galluedd meddyliol</b>                              | Asesu a oes gan unigolyn y gallu ai peidio i benderfynu a ddylai gael lleoliad mewn ysbyty neu gartref gofal penodol at ddiben derbyn gofal neu driniaeth.  |
| <b>• Asesiad iechyd meddwl</b>                                   | Asesu a oes gan unigolyn anhwylder meddyliol ai peidio. Rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei wneud gan ymarferydd meddygol.   |
| <b>• Asesiad dim achosion o wrthod</b>                           | Asesu a oes awdurdod arall sy'n bodoli eisoes a all wneud penderfyniadau dros yr unigolyn perthnasol a fyddai'n rhwystro rhoi awdurdodiad colli rhyddid safonol. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad dilys ymlaen llaw, neu benderfyniad dilys gan ddirprwy neu dderbynydd wedi ei benodi dan atwrneiaeth arhosol. |
| <b>Asesydd Budd Pennaf</b>                                       | Unigolyn sy'n cynnal asesiad o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.   |

|                        |   |
|------------------------|---|
| <b>Galluedd</b>        | Ffurf gryno o ddweud galluedd meddyliol. Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Ceir diffiniad cyfreithiol yn Adran 2 Deddf Galluedd Meddyliol 2005.   |
| <b>Cartref gofal</b>   | Cyfleuster gofal a gofrestrwyd dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.   |
| <b>AGGCC</b>           | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am wneud asesiadau a dyfarniadau proffesiynol ynglŷn â gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, ac am annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaeth.   |
| <b>Gofalwyr</b>        | Pobl sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i berthnasau, ffrindiau neu gymdogion sy'n fregus, sâl, neu mewn sefyllfa agored i niwed arall.   |
| <b>Amodau</b>          | Gofynion y gall corff goruchwyllo eu pennu wrth roi awdurdodiad colli rhyddid safonol, ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Asesydd Budd Pennaf.   |
| <b>Cydsynio</b>        | Cytuno i gymryd camau penodol – yn benodol yn yr adroddiad hwn, cytuno i gynllun gofal neu driniaeth. Er mwyn i ganiatâd fod yn ddilys yn gyfreithiol, rhaid i'r unigolyn sy'n ei roi fod â'r gallu i wneud y penderfyniad, rhaid iddo fod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol i wneud y penderfyniad, ac ni ddylai fod wedi bod dan unrhyw orfodaeth neu bwysau amhriodol. |
| <b>Y Llys Gwarchod</b> | Y llys arbenigol ar gyfer pob mater yn ymwneud â phobl sydd heb y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Gan y llys hwn mae'r penderfyniad terfynol, ac mae ganddo'r un hawliau, breintiau, pwerau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Gall sefydlu cyfraith achos, sy'n rhoi enghreifftiau o sut y dylid rhoi'r gyfraith ar waith.                                     |
| <b>Colli rhyddid</b>   | Mae colli rhyddid yn derm sy'n cael ei ddefnyddio gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol am amgylchiadau pan fydd rhyddid unigolyn yn cael ei gymryd oddi wrtho. Mae ei ystyr yn ymarferol yn cael ei ddiffinio trwy gyfraith achos.  |

## **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

Y fframwaith diogelwch dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r fframwaith yn berthnasol lle bydd angen, er eu budd pennaf, i bobl golli eu rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er mwyn derbyn gofal neu driniaeth ac nad ydynt yn meddu ar y gallu i roi caniatâd i'r trefniadau a wnaed ar gyfer eu gofal neu eu triniaeth.

## **AGIC**

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru mewn perthynas ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn amlygu meysydd sydd angen eu gwella. .

## **Bwrdd Iechyd Lleol**

Mae byrddau iechyd lleol yn cyflawni swyddogaeth y corff goruchwyllo ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, ac maent yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol partner, fel arfer yn yr un ardal ddaearyddol, i gynllunio strategaethau tymor hir ar gyfer ymdrin â materion iechyd a lles. Maent yn rheoli ysbytai'r GIG a gwelyau cleifion ar wahân, pan fyddant yn awdurdodau rheoli.

## **Ysbyty Annibynnol**

Fel y'i diffinnir gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ysbyty â'r priif ddiben o ddarparu triniaeth feddygol neu seiciatrig ar gyfer salwch neu anhwylder meddwl neu ofal lliniarol, neu unrhyw sefydliad arall, na ddiffinnir fel ysbyty gwasanaeth iechyd, ble y darperir triniaeth neu nyrsio (neu'r ddau) i bobl sy'n agored i'w cadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## **Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol**

Eiriolwr hyfforddedig sy'n darparu cymorth a chynrychiolaeth i unigolyn nad yw'n meddu ar y gallu i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes gan yr unigolyn unrhyw un arall i'w helpu. Sefydlwyd y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, a diffinnir ei swyddogaethau yn y Ddeddf honno.

## **Awdurdod Lleol/cyngor**

Y cyngor lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn unrhyw ardal benodol o'r wlad. Mae uwch-reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni swyddogaeth y corff goruchwyllo ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.



## **Awdurdod rheoli**

Mae gan gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan gyngor awdurdodau rheoli penodedig. Yr unigolyn neu'r corff sydd â'r cyfrifoldeb o ran rheoli ysbyty neu gartref gofal penodol lle mae yna unigolyn sydd wedi colli ei ryddid neu sy'n gallu colli ei ryddid. Maent yn gyfrifol am y gofal uniongyrchol a roddir yn y lleoliad hwnnw.

## **Cyfnod awdurdodiad hwyaf**

Y cyfnod hwyaf y gall corff goruchwyllo roi awdurdodiad colli rhyddid safonol, na all fod yn hwy na 12 mis. Ni ddylai fod yn hwy na'r cyfnod a argymhellir gan yr Asesydd Budd Pennaf, ac fe all ddod i ben yn gynharach gyda chytundeb y corff goruchwyllo.

## **Deddf Galluedd Meddyliol 2005**

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i ymrymuso ac amddiffyn pobl nad oes ganddynt y gallu o bosibl i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. Pum prif egwyddor y Ddeddf yw:

1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid cymryd bod unigolyn yn meddu ar allu oni phrofir ei fod heb allu.
2. Dylai unigolyn gael pob cymorth rhesymol cyn i unrhyw un ei drin fel rhywun na all wneud ei benderfyniadau ei hun.
3. Os bydd unigolyn yn gwneud penderfyniad y mae eraill yn ei ystyried yn annoeth, ni ddylid ei drin fel rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad.
4. Os cyflawnir unrhyw weithred neu os gwneir unrhyw benderfyniad ar ran unigolyn sydd heb allu, rhaid i hynny fod er y budd gorau i'r unigolyn hwnnw.
5. Os cyflawnir unrhyw weithred neu os gwneir unrhyw benderfyniad ar ran unigolyn sydd heb allu, dylid dewis y modd sy'n cyfyngu'n lleiaf ar ei hawliau sylfaenol a'i ryddid.

## **Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol**

Mae'r Cod Ymarfer yn cefnogi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac mae'n rhoi arweiniad i bawb sy'n gofalu am a/neu'n gwneud penderfyniadau ar ran oedolion sydd heb allu i wneud penderfyniadau. Mae'r Cod yn cynnwys

astudiaethau achos ac yn esbonio prif nodweddion y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn eglur ac yn fanylach.

**Anhwylder meddyliol**

Unrhyw anhwylder neu anabledd o'r meddwl, ar wahân i ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau. Mae hyn yn cynnwys pob anabledd dysgu.

**Deddf Iechyd Meddwl 1983**

Deddfwriaeth yn ymwneud yn bennaf â gofal a thriniaeth orfodol cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw claf mewn ysbyty ar gyfer triniaeth iechyd meddwl, triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth, a gwarcheidwaeth.

**Gofyniad cymhwyso**

Unrhyw un o'r chwe gofyniad cymhwyso (oedran, iechyd meddwl, gallu meddyliol, budd pennaf, cymhwysedd, a dim achosion o wrthod) sydd angen eu hasesu a'u bodloni er mwyn i awdurdodiad colli rhyddid safonol gael ei roi.

**Ysbyty neu gartref gofal perthnasol**

Yr ysbyty neu gartref gofal penodol lle mae'r unigolyn wedi colli ei ryddid neu lle y gallai golli ei ryddid.

**Person perthnasol**

Unigolyn sydd wedi colli ei ryddid, neu sy'n gallu colli ei ryddid, mewn ysbyty neu gartref gofal.

**Cynrychiolydd y person perthnasol**

Unigolyn, sy'n annibynnol o'r ysbyty neu gartref gofal penodol, a benodir i gynnal cysylltiad â'r person perthnasol ac i gynrychioli a rhoi cymorth iddo ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

**Cyfyngu ar ryddid**

Gweithred a orfodir ar unigolyn nad yw'n ddigon difrifol na dwys i fod yn achos o golli rhyddid.

**Adolygu**

Golwg ffurfiol a ffres ar sefyllfa person perthnasol pan fydd, neu pan all fod, newid yn ei amgylchiadau a all ofyn am ddiwygio awdurdodiad colli rhyddid safonol neu ei ddirwyn i ben.

**Meddygon Adran 12**

Meddygon sy'n gymeradwy dan Adran 12 (2) Deddf Iechyd Meddwl 1983.

**Awdurdodiad safonol**

Awdurdodiad a roddir gan gorff goruchwyllo, ar ôl cwblhau'r broses asesu statudol, sy'n rhoi awdurdod cyfreithiol i amddifadu person

perthnasol o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal penodol.

### **Corff goruchwyllo**

Gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais am golli rhyddid a dderbyniwyd gan awdurdod rheoli, am gomisiynu'r asesiadau statudol, a, lle mae'r holl asesiadau'n gytûn, am awdurdodi colli rhyddid.

### **Y Goruchaf Lys**

Y Goruchaf Lys yw'r llys apêl terfynol yn y DU ar gyfer achosion sifil, ac ar gyfer achosion troseddol o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n gwrando ar achosion sydd o'r pwysigrwydd cyhoeddus neu gyfansoddiadol mwyaf sy'n effeithio ar y boblogaeth gyfan.

### **Colli rhyddid heb awdurdodiad**

Sefyllfa lle yr amddifadir unigolyn o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb awdurdodiad naill ai gan awdurdodiad colli rhyddid safonol neu awdurdodiad colli rhyddid brys.

### **Awdurdodiad brys**

Awdurdod a roddir gan awdurdod rheoli am uchafswm o saith diwrnod, y gellir ei ymestyn wedyn gan uchafswm o saith diwrnod pellach gan gorff goruchwyllo. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithiol i'r awdurdod rheoli amddifadu unigolyn o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal tra ymgymerir â'r broses awdurdodi colli rhyddid safonol.